

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Cartrefi Caerffili

Polisi Gwaith Atgyweirio Ymatebol

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**POLISI GWAITH ATGYWEIRIO YMATEBOL
CARTREFI CAERFFILI**

F3 Adolygwyd 1 Rhagfyr 2022

Cynnwys

| ADRAN | | RHIF TUDALEN |
|----------|---|--------------|
| ADRAN 1 | Rhagarweiniad | 3 |
| ADRAN 2 | Datganiad Polisi | 3 |
| ADRAN 3 | Egwyddorion y Polisi | 4 – 7 |
| ADRAN 4 | Y Broses Adolygu | 7 |
| ADRAN 5 | Talu lawndal | 7 -8 |
| ADRAN 6 | Deddfwriaeth | 8 |
| ADRAN 7 | Y broses Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 8 – 11 |
| ADRAN 8 | Goblygiadau Cydraddoldeb | 11 |
| ADRAN 9 | Cyfranogiad Deiliaid Contract | 11 - 12 |
| ADRAN 10 | Monitro'r Polisi | 12 -13 |
| ADRAN 11 | Cysylltiadau i Bolisiâu / Dogfennau perthnasol eraill | 13 -14 |
| ADRAN 12 | Adolygu | 14 |
| ADRAN 13 | Cymeradwyo | 14 |

1.0 Rhagarweiniad

- 1.1 Mae pob cyfeiriad yn y polisi hwn at Gartrefi Caerffili yn golygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- 1.2 Mae Cartrefi Caerffili'n gwbl ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ymatebol ac effeithiol i sicrhau lefel uchel o foddhad gan Ddeiliaid Contract ac i ddiogelu gwerth ei stoc dai.
- 1.2 Mae'r Polisi hwn yn egluro'r trefniadau ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw eiddo y mae Cartrefi Caerffili'n berchen arnynt.
- 1.3 Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr Deiliaid Contract fel rhan o ddatblygu'r polisi hwn.

2.0 Datganiad Polisi

- 2.1 Bydd Cartrefi Caerffili'n cadw ei stoc dai mewn cyflwr da drwy ddarparu gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw effeithiol ac effeithlon i Ddeiliaid Contract.
- 2.2 Bydd Cartrefi Caerffili'n sicrhau bod ei wasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw'n adlewyrchu'r egwyddorion canlynol:
 - 2.2.1 Atgyweirio a chynnal a chadw'r stoc dai i safon dda, gan gydymffurfio â deddfwriaeth statudol a, lle bo'n berthnasol, yn unol â gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru.
 - 2.2.2 Darparu gwasanaeth atgyweirio hyblyg, cyfleus a chwsmerganolog sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, cysur ac anghenion Deiliaid Contract.
 - 2.2.3 Mesur a monitro boddhad cwsmeriaid a defnyddio'r wybodaeth i wella gwasanaethau'n barhaus.
 - 2.2.4 Cwrdd ag ymrwymadau contract a chyfreithiol Cartrefi Caerffili.
 - 2.2.5 Sicrhau bod y gwasanaeth atgyweirio'n cwrdd â'r safonau perfformiad ac ansawdd a nodir gan Gartrefi Caerffili yn y Llawlyfr i Ddeiliaid Contract.
 - 2.2.6 Sicrhau bod y gwasanaethau'n rhoi pwyslais ar ganlyniad ac ansawdd, yn gost-effeithiol ac yn rhoi'r gwerth gorau i Ddeiliaid Contract gyda'r adnoddau ariannol sydd ar gael.

2.2.7 Sicrhau bod egwyddorion lechyd a Diogelwch a Chyfle Cyfartal yn ganolog i'r gweithdrefnau ac arferion gwaith.

3.0 Egwyddorion y Polisi

Mae cynnal a chadw cartref Deiliad y Contract yn bartneriaeth rhwng Cartrefi Caerffili a Deiliad y Contract. Fel gydag unrhyw bartneriaeth, mae cyfrifoldebau, a disgrifir y rhain isod.

3.1 Cyfrifoldebau Deiliaid Contract:

- 3.1.1 Rhaid i Ddeiliad y Contract ddweud wrth Gartrefi Caerffili am unrhyw waith atgyweirio a rhaid iddyn nhw roi mynediad i'w cartref ar gyfer gwneud y gwaith atgyweirio. Rhaid i Ddeiliad y Contract hefyd roi mynediad i Gartrefi Caerffili er mwyn gallu gwneud unrhyw waith a gynlluniwyd / gwelliannau os rhoddir rhybudd rhesymol.
- 3.1.2 Os nad yw Deiliad Contract yn gallu cadw'r apwyntiad am unrhyw reswm, mae ganddynt gyfrifoldeb i roi gwybod i'r Tîm Atgyweiriadau Canolog (CRT) er mwyn gallu gwneud trefniadau eraill. Os bydd Deiliad y Contract yn methu â chadw apwyntiad neu hysbysu'r tîm CRT, gallai tâl gael ei godi'n unol â'r Weithdrefn Dim Mynediad.
- 3.1.3 Mae gan Ddeiliaid Contract hefyd ddyletswydd i roi mynediad i Gartrefi Caerffili er mwyn gallu rhoi gwasanaeth blynyddol i'r system wresogi, larymau mwg a charbon monocsid, ynghyd ag adroddiad bob pum mlynedd ar gyflwr y system drydanol.
- 3.1.4 Mae gan Ddeiliad y Contract gyfrifoldeb i gynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu mân eitemau yn y cartref, a ddisgrifir yn y Llawlyfr i Ddeiliaid Contract.
- 3.1.5 Mae Deiliad y Contract yn gyfrifol am atgyweirio unrhyw fai, diffyg, difrod neu gyflwr gwael a achoswyd i'r eiddo'n llwyr neu'n bennaf gan eu gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu, neu gan weithredoedd neu ddiffyg gweithredu unrhyw berson sy'n byw yn neu'n ymweld â'r eiddo, ac am dynnu allan ac adfer unrhyw welliannau neu addasiadau diawdurdod. Eglurir hyn yn fwy llawn yn y Polisi Ail-godi am Waith Atgyweirio.

3.2 Cyfrifoldebau Cartrefi Caerffili

- 3.2.1 Mae Cartrefi Caerffili'n gyfrifol am gynnal strwythur a rhannau cyffredin ei eiddo mewn cyflwr da, yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn y Contract Meddiannu a'r Llawlyfr i Ddeiliaid Contract. Mae Cartrefi Caerffili'n gyfrifol am gynnal cyflwr yr eiddo fel ei fod yn addas i bobl fyw ynddo, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a rheoliadau perthnasol.

3.2.2 Rhaid i Gartrefi Caerffili gyflawni ei gyfrifoldebau atgyweirio drwy gyfuniad o welliannau, gwaith atgyweirio ymatebol, a chynnal a chadw a gynlluniwyd.

3.2.3 Cynnal a Chadw Ymatebol

3.2.3.1 Mae cynnal a chadw ymatebol yn cael ei wneud, fel arfer ar gais Deiliad y Contract, i atgyweirio difrod i eitem neu ran o strwythur yr adeilad. Gall hefyd gynnwys adnewyddu'r eitem os oes angen.

3.2.3.2 Mae system apwyntiadau ar gael fel y gall Deiliaid Contract drefnu i waith atgyweirio gael ei wneud ar ddyddiad ac amser cyfleus iddynt.

3.2.3.3 Mae gwasanaeth brys ar gael i Ddeiliaid Contract ar gyfer unrhyw waith atgyweirio ymatebol sydd angen ei wneud y tu allan i oriau gwaith arferol Cartrefi Caerffili.

3.2.4 Gwaith a Gynlluniwyd / Gwelliannau, gan gynnwys y WHQS a'r Strategaeth Rheoli Asedau a Gynlluniwyd (PAMS) (nid yw'r math yma o waith yn dod o dan y polisi hwn).

Gwaith a gynlluniwyd / gwelliannau yw gwaith a drefnwyd ac a wneir fel rhan o raglen yn unol â chynllun busnes 30 mlynedd Cartrefi Caerffili. Mae hyn yn cynnwys yr holl waith atgyweirio / gwelliannau sylweddol er mwyn cynnal cartrefi i Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae cynnal a chadw a gynlluniwyd hefyd yn cynnwys gwaith statudol ac ataliol cylchol, sy'n cael ei ailadrodd ar gyfnodau, fel peintio allanol, gwasanaeth bwylter, profion trydanol, gwasanaeth larymau mwg, carbon monocsid a'r larwm tân, systemau chwistrellu dŵr, trin dŵr, gwasanaeth lifft.

3.2.5 Tamprwydd a Chyddwysiad

Bydd Cartrefi Caerffili'n ymchwilio i bob adroddiad o damprwydd, sut bynnag yr achoswyd y broblem, gan gynnig cyngor ac atebion i Ddeiliaid Contract ar sut i drin y broblem gyddwysu, a gwaith atgyweirio ar gyfer tamprwydd treiddiol neu o'r llawr. Mae cyngor annibynnol hefyd ar gael lle bo angen.

3.2.6 Goleuadau Landlord

Bydd goleuadau yn yr ardaloedd cymunedol yn cael eu gwirio'n wythnosol a'u hadnewyddu lle bo angen. Bydd prawf diogelwch trydanol blynyddol yn cael ei wneud ar bob golau landlord.

3.2.7 Ail-godi am Waith Atgyweirio

Bydd unrhyw ddifrod yr ystyrir ei fod yn gyfrifoldeb i Ddeiliad y Contract yn cael ei adnabod ac yn cael sylw priodol. Lle bo'r cyfrifoldeb statudol yn gorwedd gyda Chartrefi Caerffili, neu os oes risg iechyd a diogelwch, bydd y difrod yn cael ei atgyweirio a'r gost, lle bo angen, yn cael ei hail-godi ar Ddeiliad y Contract o dan y weithdrefn Ail-godi am Waith Atgyweirio.

Rhoddir manylion am Ail-godi am Waith Atgyweirio yn y Llawlyfr i Ddeiliaid Contract, a hefyd ar wefan Cartrefi Caerffili.

Codir tâl ar Ddeiliaid Contract hefyd am unrhyw waith atgyweirio sy'n cael ei ddarganfod ar ôl i'w contract ddod i ben, sydd hefyd yn cynnwys cyflwr yr eiddo, o dan y weithdrefn Ail-godi am Waith Atgyweirio, y weithdrefn Rheoli Tai Gwag, a'r weithdrefn Terfynu Contract. Dylid cyflwyno tystiolaeth ffotograffig, cyn ac ar ôl gwneud y gwaith atgyweirio, yn yr amgylchiadau hyn.

3.2.8 Atgyweirio Tai Gwag

Bydd Cartrefi Caerffili'n sicrhau bod pob eiddo gwag yn cwrdd â'i Safon Gosod sy'n sicrhau eu bod yn Addas i Bobl Gael Byw ac yn unol â'r weithdrefn Rheoli Tai Gwag.

3.2.9 Cyd-gyfrifoldeb am Waith Atgyweirio

Yn aml iawn, adroddir gwaith atgyweirio gan Ddeiliad y Contract sy'n effeithio ar ran o'r eiddo sy'n cael ei rannu ag eiddo cyfagos, e.e. corn simdde, ffens. Os yw'r eiddo cyfagos hwn wedi cael ei werthu ac mae cydgyfrifoldeb am gost y gwaith, ymgynghorir yn llawn gan ddod i gytundeb â'r Perchennog cyn cwblhau'r gwaith.

3.3 Yr Hawl i Atgyweirio

3.3.1 Mae gan Ddeiliaid Contract hawl i ddisgwyl i waith atgyweirio gael ei gwblhau o fewn amser penodol. Diffinnir yr amseroedd hyn yn y Llawlyfr i Ddeiliaid Contract.

3.3.2 O dan y ddeddfwriaeth Hawl i Atgyweirio, gallai fod gan Ddeiliaid Contract hawl i iawndal os nad yw gwaith atgyweirio cymwys wedi'i gwblhau o fewn amser penodol.

3.3.3 Bydd Cartrefi Caerffili'n rhoi gwybodaeth i Ddeiliaid Contract am yr Hawl i Atgyweirio, lle bo'n berthnasol.

3.4 Ni fydd rhoi caniatâd i Ddeiliad Contract wneud gwelliannau'n cael ei ddal yn ôl yn afresymol, ond gallai gael ei ddal yn ôl os bydd y gwelliannau a ofynnwyd amdanynt:

3.4.1 Yn mynd i wneud yr eiddo'n ddrytach i'w gynnal a chadw

3.4.2 Yn gwneud yr eiddo'n llai diogel

3.4.3 Yn lleihau gwerth yr eiddo

3.4.4 Unrhyw reswm perthnasol arall o dan Atodlen 6 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Gallai iawndal am welliannau gael ei dalu'n unol â darpariaethau'r Cynllun Iawndal.

4.0 Y Broses Adolygu

4.1 Eglurir yr hawl i Ddeiliad Contract gael gofyn am adolygiad o benderfyniad yn y weithdrefn Ail-godi am Waith Atgyweirio ac yn y weithdrefn Caniatâd Landlord.

5.0 Talu Iawndal

5.1 Mewn rhai amgylchiadau, gellir talu lwfans addurno am ddifrod 'canlyniadol' a achosir yn dilyn gwaith atgyweirio gan y Landlord.

5.2 Gellir talu iawndal i Ddeiliad Contract sy'n colli gwres yn llwyr neu'n rhannol. Mae'r meini prawf ar gyfer taliadau gaeaf a rhai'r haf yn wahanol, a hefyd faint o iawndal y gellir ei dalu.

5.3 Bydd iawndal yn cael ei dalu i Ddeiliaid Contract os defnyddir eu cyflenwad ynni i wneud unrhyw waith atgyweirio'n unol â'r Siarter Ymddiriedaeth.

6.0 Cydymffurfio â Deddfwriaeth a Rheoliadau

6.1 Bydd Cartrefi Caerffili'n sicrhau bod tai'n cael eu hatgyweirio a'u cynnal yn unol ag arferion gorau a pholisïau a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol:

6.1.1 Y Contract Meddiannu a'r Llawlyfr i Ddeiliaid Contract

- 6.1.2 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- 6.1.3 Deddfau Tai 1988, 1996, 1998, 2004
- 6.1.4 Deddf Eiddo Diffygiol 1972
- 6.1.5 Rheoliadau Adeiladu
- 6.1.6 Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993
- 6.1.7 Deddf Cydraddoldeb 2010
- 6.1.8 Y Rheoliadau Diogelwch Nwy
- 6.1.9 Y Rheoliadau Trydanol (NICEIC)

7.0 Y Broses Atgyweirio a Chynnal a Chadw

- 7.1 Gall Deiliad Contract, neu eu cynrychiolydd, adrodd gwaith atgyweirio ymatebol yn y ffyrdd canlynol, a'r Tîm Atgyweirio Canolog fydd fel arfer yn delio â'r cais.

Drwy ffonio

Drwy lythyr

Drwy e-bost

Wyneb yn wyneb yn y swyddfeydd tai / cyngor lleol

Wyneb yn wyneb wrth wneud archwiliadau stad

Drwy ffonio'r gwasanaeth 'tu allan i oriau', ar gyfer gwaith atgyweirio brys yn unig Gallai tâl gael ei ail-godi am gamddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

- 7.2 Mae Cartrefi Caerffili'n ceisio gwella'r dulliau o adrodd ceisiadau atgyweirio'n barhaus, gan geisio datblygu dulliau mwy modern drwy ddefnyddio technoleg newydd.

- 7.3 Mae Cartrefi Caerffili wedi cyflwyno'r categorïau atgyweirio ymatebol canlynol, ynghyd ag amseroedd targed ar gyfer ymateb a chwblhau'r gwaith. Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan fydd Deiliad y Contract mewn iechyd gwael, gallai Cartrefi Caerffili ystyried amser ymateb cynt na'r targedau a gyhoeddwyd.

7.3.1 Gwaith Atgyweirio Brys

Y blaenoriaethau presennol yw:-

Polisi Gwaith Atgyweirio Ymatebol

| Cod Blaenoriaeth | Categori | Amser Targed i Gwblhau'r Gwaith |
|-------------------------|--|---|
| 01 | Brys – tu allan i oriau | 2 awr (wedi'i atgyweirio neu wneud yn ddiogel) |
| 02 | Brys – oriau gwaith | 24 awr (wedi'i atgyweirio neu wneud yn ddiogel) |
| 03 | Apwyntiad | 20 diwrnod gwaith |
| 05 | Apwyntiad | 45 diwrnod gwaith |
| 08 | Apwyntiadau'n dilyn rhag-archwiliad o'r gwaith | 60 diwrnod gwaith |

Gwaith atgyweirio brys yw gwaith sy'n rhaid ei wneud i osgoi perygl difrifol i iechyd a diogelwch, neu os gallai methu â gwneud y gwaith atgyweirio achosi difrod sylweddol i adeiladau ac eiddo.

Yr amser targed ar gyfer gwaith brys (atgyweirio neu wneud yn ddiogel) tu allan i oriau o dan Flaenoriaeth 01 yw 2 awr.

Yr amser targed ar gyfer gwaith brys (atgyweirio neu wneud yn ddiogel) tu allan i oriau o dan Flaenoriaeth 02 yw 24 awr.

7.3.2 Apwyntiadau Gwaith Atgyweirio Ymatebol

Er hwylustod i Ddeiliad Contract, mae Cartrefi Caerffili'n cynnig system apwyntiadau ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio ymatebol yn ystod oriau gwaith arferol.

Trefnir apwyntiad â'r Deiliad Contract unigol, gan gynnig apwyntiadau bore, prynhawn, amser hebrwng plant ysgol, neu drwy'r dydd. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau ar amser sy'n gyfleus i Ddeiliad y Contract, o fewn yr amser targed priodol i adrodd y cais atgyweirio.

7.3.3 Gwaith Ymatebol a Gynlluniwyd

Mae gwaith ymatebol a gynlluniwyd yn waith atgyweirio mwy sydd fel arfer yn cymryd mwy na diwrnod i'w gwblhau ac nid yn waith brys, er efallai'n anghyfleus i Ddeiliad y Contract.

Yr amser targed ar gyfer cwblhau gwaith a gynlluniwyd yw o fewn 60 diwrnod i adrodd.

7.3.4 Rhag-archwiliadau

Gallai fod angen archwilio rhai mathau o waith atgyweirio ymlaen llaw, i asesu natur y gwaith a'i flaenoriaeth. Lle y bo'n bosib, gwneir pob archwiliad o fewn deg diwrnod gwaith.

7.4 Rheoli Ansawdd

7.4.1 Mae Cartrefi Caerffili'n credu bod ansawdd ei wasanaeth cynnal a chadw'n eithriadol bwysig, nid yn unig i sicrhau iechyd, diogelwch, cysur a boddhad ei Ddeiliaid Contract ond hefyd i warchod gwneuthuriad a gwerth ei stoc dai.

7.4.2 Mae Cartrefi Caerffili'n gofyn bod ei holl Ddeiliaid Contract, staff a chontractwyr yn cydymffurfio â 'Siarter Ymddiriedaeth' Cartrefi Caerffili.

7.4.3 Efallai y cysylltir â Deiliad Contract sy'n adrodd gwaith atgyweirio ymatebol, ar ôl cwblhau'r gwaith, i helpu i asesu perfformiad ac ansawdd y gwasanaeth atgyweirio drwy gymryd rhan mewn arolwg boddhad.

7.4.5 Nod Cartrefi Caerffili yw gwirio ansawdd o leiaf 20% o'r gwaith a gwblhawyd ganddo, naill ai drwy wneud ôl-archwiliad neu arolwg boddhad. Bydd unrhyw broblem sy'n codi o hyn yn cael ei chyfeirio at y Fforman cyfrifol er mwyn ymchwilio ymhellach iddi a sicrhau bod unrhyw waith angenrheidiol i gywiro'r broblem yn cael ei wneud neu i weld a oes gwersi i'w dysgu o'r gwasanaeth a roddwyd.

7.4.6 Mae polisi cwynion y Cyngor hefyd ar gael i unrhyw Ddeiliad Contract sy'n anfodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ymatebol a roddwyd. Mae'r manylion ar gael ar wefan y Cyngor, gan y swyddfa dai leol neu unrhyw un o brif swyddfeydd y Cyngor.

8. **Cydraddoldeb a Goblygiadau Iaith Gymraeg**

8.1 Mae Cartrefi Caerffili'n ymrwymedig i roi gwasanaeth cyfartal i bawb. Bydd unrhyw gamau a gymerir o dan y polisi hwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

8.2 Bydd staff Cartrefi Caerffili'n gweithredu o fewn gofynion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol corfforaethol, a Strategaeth yr Iaith Gymraeg, gan gwrdd ag unrhyw anghenion penodol a allai godi o ran gofynion Deiliaid Contract, beth bynnag yw eu hamgylchiadau a'u cefndiroedd.

8.3 Bydd y weithdrefn Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw'n cael ei theilwrio i gwrdd ag anghenion yr unigolyn, er enghraifft drwy gynyddu

blaenoriaeth y gwaith ar gyfer Deiliad Contract bregus. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

- 8.4 Gofynnir i bob contractwr gyflwyno eu polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyn dyrannu unrhyw waith.
- 8.5 Bydd Cartrefi Caerffili'n darparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau, os bydd pobl yn gofyn.

9. **Cyfranogiad Deiliaid Contract**

- 9.1 Bydd Cartrefi Caerffili'n rhoi gwybodaeth am berfformiad i Ddeiliaid Contract drwy'r gwahanol grwpiau Deiliaid Contract, ar y wefan Dai, ar y cyfryngau cymdeithasol ac yng Nghylchlythyr Cartrefi Caerffili fel y gall Deiliaid Contract fesur a gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau.
- 9.2 Bydd Cartrefi Caerffili'n gwrando ar farn Deiliaid Contract ar bob cyfle er mwyn gallu gwella eu gwasanaethau'n barhaus, yn unol â'r Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid.
- 9.3 Bydd Cartrefi Caerffili:
 - 9.3.1 Yn cynnwys ein Deiliaid Contract mewn penderfyniadau am waith atgyweirio ymatebol
 - 9.3.2 Yn cynnwys ein Deiliaid Contract mewn datblygu polisiâu gwaith atgyweirio
 - 9.3.3 Yn cynnwys ein Deiliaid Contract mewn dewis a pharatoi manylebau ar gyfer contractwyr ac elfennau allweddol
- 9.4 Bydd Cartrefi Caerffili'n sicrhau, lle bo'n bosib, bod Deiliaid Contract yn gallu cael dewis gyda'r gwaith atgyweirio, er enghraifft drwy ein system apwyntiadau neu ar gynllun lliw.
- 9.5 Bydd Cartrefi Caerffili'n gwneud pob gwaith atgyweirio adeiladau'n unol â darpariaethau'r Siarter Ymddiriedaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw adeiladau.

10. **Monitro'r Polisi**

- 10.1 Er mwyn helpu i gyrraedd ein nod o fod yn gorff sy'n gwella'n barhaus a sicrhau ein bod yn cwrdd â'n holl ymrwymiadau statudol, mae gan Gartrefi Caerffili systemau a phrosesau yn eu lle i ni fonitro a gwerthuso ein perfformiad.
- 10.2 Bydd Cartrefi Caerffili'n monitro safon y gwaith atgyweirio, a pherfformiad ei gontractwyr, yn barhaus. Cymerir camau priodol os nad yw'r gwaith atgyweirio'n cael ei wneud i'r safon sy'n ofynnol.
- 10.3 Bydd Cartrefi Caerffili'n adolygu ei safonau'n barhaus drwy fesur yn erbyn meincnodau perfformiad Llywodraeth Cymru ac o'i gymharu â darparwyr tai cymdeithasol eraill.
- 10.4 Bydd Cartrefi Caerffili'n meincnodi ei berfformiad yn erbyn sefydliadau tai tebyg eraill er mwyn ceisio gwella'n barhaus a sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag arferion gorau, ac yn hyrwyddo hyn drwy gylchlythyrau.
- 10.5 Bydd adroddiadau ar y Gwasanaeth Gwaith Atgyweirio Ymatebol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio a'r grwpiau Deiliaid Contract priodol.

11. **Cysylltiadau i Bolisiâu / Dogfennau perthnasol eraill**

- 11.1 Mae'r polisi hwn yn cysylltu'n agos i'r polisiâu / dogfennau canlynol:

- 11.1.1 Y Contract Meddiannu

- 11.1.2 Y Llawlyfr i Ddeiliaid Contract

- 11.1.3 Y Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid

- 11.1.4 Y Polisi Ail-godi am Waith Atgyweirio

- 11.1.5 Y weithdrefn Rheoli Tai Gwag

- 11.1.8 Y Polisi Cwynion corfforaethol

- 11.1.9 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch

11.1.10

- 11.1.11 Y weithdrefn Dim Mynediad

- 11.1.12 Y weithdrefn lawndal

- 11.1.13

- 11.1.14 Y weithdrefn Cyd-gyfrifoldeb am Waith Atgyweirio Ymatebol

11.1.15 Y weithdrefn Caniatâd Landlord

11.1.16 Y weithdrefn Dim Mynediad ar gyfer Gwasanaeth Blynyddol

11.1.17 Y weithdrefn Terfynu Contract

12. **Adolygu**

12.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd, oni bai fod newid deddfwriaeth cynt yn digwydd.

13. **Cymeradwyo / Diwygio'r Polisi**

| Gwybodaeth Rheoli Dogfennau | | | |
|------------------------------------|--|----------------------------|----------------------------|
| Awdur | Jason Fellows, Alan Edmunds a Julie Reynolds | Statws | Yn aros i'w chymeradwyo |
| Fersiwn | 3 | Dyddiad | 7 Gorffennaf 2022 |
| Cymeradwywyd gan: | | Dyddiad cymeradwyo: | |

| Adolygu Dogfennau | | | |
|--------------------------|--|----------------------|-------------------|
| Fersiwn | Diwygiad | Gan | Dyddiad |
| 3 | Diwygiadau statudol yn dilyn RHWA2016, dyddiad gweithredu 1 Rhagfyr 2022 | Rachel Hawker | 7 Gorffennaf 2022 |

Gadewir y dudalen hon yn fwriadol wag

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Cartrefi Caerffili

Polisi Gwaith Atgyweirio Ymatebol

Tudalen 24